ATODLEN 1 Rheoliadau 22 a 23

Gwybodaeth i'w chofnodi

# RHAN 1

## Gwybodaeth i'w chofnodi gan gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach o ran personau sy'n darparu addysg nas cyflenwyd gan fusnes cyflogi

**1.** a yw swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol;

**2.** a yw hunaniaeth y person wedi'i gwirio;

**3.** a wnaed gwiriad i gadarnhau a yw'r person yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002;

**4.** a wnaed gwiriad i sicrhau bod y person yn bodloni'r holl ofynion cymhwyso perthnasol ar gyfer staff;

**5.** pan fo swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol, a wnaed gwiriad manwl o'r cofnodion troseddol mewn perthynas ag ef;

**6.** a wnaed gwiriadau o'r math a ddisgrifir yn rheoliad 6 y barnwyd eu bod yn briodol mewn perthynas â'r person;

**7.** a wnaed gwiriad i gadarnhau bod gan y person hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;

**8.** ar gyfer pob gwiriad a wnaed yn y Rhan hon, y dyddiad pryd y cwblhawyd y gwiriad.

# RHAN 2

## Gwybodaeth sydd i'w chofnodi gan gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach o ran personau sy'n darparu addysg a gyflenwyd gan fusnes cyflogi

**1.** a yw swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol;

**2.** a gafwyd hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y busnes cyflogi—

(a) bod hunaniaeth y person wedi'i gwirio;

(b) bod gwiriad wedi'i wneud i gadarnhau a yw'r person yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002;

(c) bod gwiriad wedi'i wneud i sicrhau bod y person yn bodloni'r holl ofynion cymhwyso perthasol ar gyfer staff;

(ch) bod gwiriadau pellach o'r math a ddisgrifir yn rheoliad 18(d) y barnwyd eu bod yn briodol mewn perthynas â'r person wedi'u gwneud;

(d) bod gwiriad wedi'i wneud i gadarnhau bod gan y person hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;

(dd) pan fo swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol—

(i) y gwnaed gwiriad manwl o'r cofnodion troseddol mewn perthynas â'r person hwnnw; neu

(ii) bod cais am dystysgrif cofnod troseddol fanwl wedi'i gwneud a bod datganiad addasrwydd plant wedi cael ei gyflwyno gan y busnes cyflogi neu ar ei ran mewn perthynas â'r person hwnnw;

**3.** ar gyfer pob hysbysiad ysgrifenedig a restrir ym mharagraff 2 ac a gafwyd, y dyddiad pryd y cafwyd yr hysbysiad;

**4.** pan fo'r busnes cyflogi wedi cael tystysgrif cofnod troseddol fanwl, a yw'n rhoi manylion am unrhyw fater perthnasol sy'n ymwneud â'r person a'r mater hwnnw yn un a gofnodwyd yn y cofnodion canolog neu sy'n rhoi unrhyw wybodaeth a ddarperir yn unol ag adran 113B(4) o Ddeddf yr Heddlu 1997 neu a oes unrhyw wybodaeth wedi ei darparu yn unol ag adran 113B(6) o Ddeddf yr Heddlu 1997;

**5.** a oes copi o dystysgrif cofnod troseddol fanwl wedi'i ddarparu i gorff llywodraethu y sefydliad addysg bellach.